

## Datganiad Polisi Amgylcheddol 2020

1. Y Comisiwn Brenhinol yw corff ymchwilio ac archif cenedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru. Ef sydd â'r rôl arweiniol o ran sicrhau y caiff treftadaeth archaeolegol, adeiledig ac arforol Cymru ei chofnodi'n awdurdodol, a bydd yn ceisio hyrwyddo deall a gwerthfawrogi'r dreftadaeth honno'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.
2. Rydym yn deall bod ein gwaith o ddydd i ddydd yn cael effaith ar yr amgylchedd, a hynny, yn bennaf, trwy ddefnyddio adnoddau, trwy deithio a thrwy gynhyrchu gwastraff.
3. Rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad amgylcheddol, gan leihau ein hól-troed carbon a gweithio tuag at nodau datblygiad cynaliadwy, sy'n cwmpasu'r economi, cymdeithas, a'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â'r amgylchedd.
4. Bydd y Comisiwn Brenhinol yn lleihau ei effeithiau amgylcheddol niweidiol trwy:
  - i. Sicrhau cydymffurfiaid â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, safonau a rhwymedigaethau cydymffurfio eraill.
  - ii. Rheoli gwastraff trwy leihau, aildefnyddio a hyrwyddo ailgylchu;
  - iii. Lleihau i'r eithaf effaith ein defnydd o egni, dŵr a phapur ar yr amgylchedd;
  - iv. Lleihau i'r eithaf blastigion untro y mae modd eu hosgoi a gweithio tuag at beidio â'u defnyddio o gwbl;
  - v. Hyrwyddo mentrau trafniadaeth cynaliadwy ac annog defnyddio fideo-gynadledda a thele-gynadledda;
  - vi. Ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer priodol ein swyddogaethau, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny;
  - vii. Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithdrefnau caffael;

- viii. Codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a'r angen am addasu, cydweithio, ac annog cydweithio a gweithredu ar draws y sector amgylchedd hanesyddol; a
- ix. Sefydlu amcanion a/neu dargedau amgylcheddol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r datganiad polisi hwn bob dwy flynedd. Ar ôl ei adolygu, bydd y datganiad yn cael ei gymeradwyo gan y Comisiynwyr. Bydd yr adolygiad nesaf ym mis Ebrill 2022.

### Cydnabyddiaeth

Seilir y ddogfen hon ar y polisiau a fabwysiadwyd gan gan Brifysgol Bangor a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**  
**This policy is also available in English.**



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2020.

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.

**OGL**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at: Comisiwyn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, [chc.cymru@cbhc.gov.uk](mailto:chc.cymru@cbhc.gov.uk).